NODIADAU CEFNDIR AR ANGHYDRADDOLDEB I ATHRAWON

Beth mae anghydraddoldeb yn ei olygu?

Yn yr adnodd hwn mae anghydraddoldeb yn cyfeirio at wahaniaethau eang mewn poblogaeth, o ran cyfoeth, incwm neu fynediad at wasanaethau hanfodol megis iechyd ac addysg. Gall y gwahaniaethau hyn ddigwydd rhwng cymunedau yn yr un wlad, neu rhwng gwledydd. Gall anghydraddoldeb hefyd ymwneud â chyfleoedd anghyfartal (cyfleoedd mewn bywyd) a chanlyniadau anghyfartal.

Mae llawer o astudiaethau academaidd yn datgelu bod cynnydd yn incwm gwlad (GDP) ac arwyddion bod tlodi'n lleihau yn gyffredinol weithiau'n cuddio anghydraddoldeb sy'n parhau neu'n gwaethygu yn y boblogaeth. Mae astudiaeth Young Lives o 12,000 o blant mewn pedair gwlad wahanol dros gyfnod o 15 mlynedd wedi dangos y gall gwahaniaethau eang fodoli mewn lefelau incwm, iechyd ac addysg rhwng gwahanol grwpiau ethnig, rhwng bechgyn a merched, a rhwng cymunedau sy'n byw mewn gwahanol leoliadau, lle mae pobl mewn ardaloedd trefol yn llawer gwell eu byd na phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.[i]

Gellir mesur anghydraddoldeb economaidd yn nhermau cyfoeth (faint o eiddo sydd gan aelwyd) ac yn nhermau incwm (faint o incwm sydd gan yr aelwyd). Mae cyfleoedd anghyfartal yn cyfeirio at ddosbarthiad anghyfartal 'cyfleoedd mewn bywyd', megis mynediad anghyfartal at wasanaethau fel addysg a gofal iechyd neu gau allan o gyfleoedd cyflogaeth. Mae canlyniadau anghyfartal yn cyfeirio at ddosbarthiad anghyfartal newidynnau megis cyfoeth, incwm neu gyrhaeddiad addysgol.

Pam y mae anghydraddoldeb yn broblem?

Er bod rhai pobl yn dadlau bod angen anghydraddoldeb economaidd er mwyn ysgogi twf a ffyniant, mae anghydraddoldeb eithafol yn achosi problemau. Mae anghydraddoldeb economaidd yn tueddu i arafu cyflymder lleihau tlodi, a phan fydd yn eithafol, gall hyd yn oed ei wrthdroi. Mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd bellach i'w weld yn ymledu mewn llawer o wledydd ar hyd a lled y byd. Mae saith o bob deg person yn y byd yn byw mewn gwledydd lle mae anghydraddoldeb economaidd wedi cynyddu yn y 30 mlynedd diwethaf. O gymryd holl gyfoeth y blaned a'i rannu'n ddau, byddai bron i hanner y cyfoeth yn mynd i'r 1 y cant cyfoethocaf; yr hanner arall i'r 99 y cant sydd ar ôl. Mae anghydraddoldeb yn cynyddu yn y DU: mae'r pum teulu cyfoethocaf yn y DU bellach yn gyfoethocach na'r 20 y cant isaf yn y boblogaeth (12.6 miliwn o bobl).[ii]

Mae anghydraddoldeb yn herio'r ymdeimlad greddfol o degwch y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei deimlo, ond mae rhesymau eraill pam y mae anghydraddoldeb eithafol yn broblem. Yn eu plith, y ffaith fod anghydraddoldeb eithafol – lle mae'r elit cyfoethog yn rheoli grym economaidd a gwleidyddol – yn cyfyngu ar y cyfleoedd y mae pobl dlotach yn eu cael mewn bywyd. Mae arian, grym a chyfleoedd wedi'u crynhoi yn nwylo'r ychydig, sy'n golygu bod y cyfoethog yn mynd yn gyfoethocach, tra mae' tlawd yn mynd yn dlotach (gweler yr adran isod ar 'Achosion anghydraddoldeb'). Yn ychwanegol at hyn, oherwydd bod gwahanol fathau o anghydraddoldeb yn aml yn gorgyffwrdd ac yn ategu ei gilydd, mae cynnydd mewn anghydraddoldeb yn golygu bod lleihau tlodi'n cael ei arafu fwy fyth. Er enghraifft, mae menyw anabl, oedrannus, dlawd o leiafrif ethnig yn wynebu cyfres o rwystrau rhyng-gysylltiedig er mwyn troi ei chefn ar dlodi.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Anghydraddoldeb rhwng y rhywiau

Menywod yw'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw mewn tlodi yn y byd. Yn aml iawn mae gan fenywod lai o adnoddau, llai o hawliau a llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau, o'u cymharu â dynion. Mae llawer o resymau, a'r rheiny'n rhesymau cymhleth yn aml, pam y mae menywod yn wynebu mwy o risg, er enghraifft trais domestig, gwahaniaethu a diffyg addysg.

Yn 2009, cyfrifwyd bod dau draean o'r bobl sy'n byw mewn tlodi eithafol a 60% o'r bobl dlawd sy'n gweithio yn y byd yn fenywod. Yn aml iawn mae menywod yn berchen ar lai o asedau na dynion, maent yn ennill llai o arian ac maent yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith gofalu di-dâl. Yn ychwanegol at hyn, mae llai o fenywod yn cael eu cynrychioli mewn gwleidyddiaeth ac yn aml iawn mae tuedd i wahaniaethu yn eu herbyn yn gyfreithiol hefyd. Mae menywod yn dal i gael statws cyfreithiol is na dynion mewn 128 o wledydd yn y byd.[iii]

Gallwch ddarganfod mwy am waith Oxfam ar hawliau menywod yma: www.oxfam.org.uk/what-we-do/issues-we-work-on/womens-rights

Achosion anghydraddoldeb economaidd byd-eang

Er bod llawer o anghydraddoldebau o fewn gwledydd yn digwydd o ganlyniad i bolisi'r llywodraeth genedlaethol, gall anghydraddoldeb byd-eang hefyd effeithio ar weithredoedd llywodraeth gwlad. Gall y ffactorau allanol hyn waethygu anghydraddoldeb o fewn gwledydd a rhwng gwahanol wledydd.

Achosion hanesyddol

Mae llawer o bobl yn credu bod anghydraddoldeb rywsut neu'i gilydd yn anorfod, neu ei fod yn un o ganlyniadau angenrheidiol globaleiddio a chynnydd technolegol. Er hyn, mae profiadau gwahanol wledydd trwy hanes wedi dangos y gall dewisiadau gwleidyddol ac economaidd bwriadol waethygu neu leihau anghydraddoldeb.

Gellid dadlau ynglŷn â natur a dylanwad cymharol y dewisiadau hyn, ond heb os nac oni bai yn ystod y tri chan mlynedd diwethaf mae bwlch incwm (a datblygiad ehangach) enfawr wedi agor rhwng y gwledydd cyfoethocach a'r gwledydd tlotaf. Mae achosion hanesyddol y pegynnu hwn yn gydadwaith cymhleth rhwng gwladychiaeth, gwleidyddiaeth, technoleg a sefydliadau, ac mae llawer o'r ffactorau hyn yn dal yn weithredol heddiw, ac yn cynnal ac yn gwaethygu anghydraddoldeb rhwng gwledydd. Mae cael technolegau mwy datblygedig a sefydliadau cryf megis hawliau eiddo diogel neu system gyfreithiol ddibynadwy yn golygu bod busnesau yn fwy tebygol o fuddsoddi yn yr hirdymor. O ganlyniad, mae pobl yn fwy tebygol o ddod o hyd i swyddi, a gall eu llywodraeth sicrhau mwy o incwm trwy gasglu trethi. Pan mae hyn yn gweithio'n dda, mae'n ffurfio cylch rhinweddol, oherwydd mae hyn yn galluogi llywodraeth i wario ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol megis iechyd ac addysg sydd yn eu tro'n cryfhau twf economaidd a chyflogaeth gan fod pobl yn gallu dal swyddi mwy cynhyrchiol sy'n talu'n well.

Fodd bynnag, mae delfryd y cylch rhinweddol hwn o fuddsoddiad, trethi a gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei atal yn aml gan wleidyddiaeth, sy'n cael ei ddylanwadu yn bwysig iawn gan ffactorau byd-eang. Un her o'r fath yw effeithiau gwladychu sy'n dal i adael ei ôl mewn llawer o ffyrdd ar gymdeithasau sy'n datblygu heddiw – er enghraifft camddefnyddio adnoddau naturiol er budd pwerau masnachu trefedigaethol, a chwmnïau rhyngwladol yn awr, yn hytrach na chymunedau lleol; creu ffiniau cenedl-wladwriaeth artiffisial o amgylch grwpiau o bobl nad oedd ganddynt hanes o fod yn genedl; neu osod strwythurau sefydliadol Ewropeaidd eu naws heb eu haddasu i'r cyd-destun lleol. Mae'r anghydraddoldeb grym rhwng gwledydd a greodd, ac

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

a gafodd ei waethygu'n fawr gan wladychiaeth, i'w weld o hyd heddiw yn y dylanwad anghymesur sydd gan bwerau cyn-drefedigaethol o hyd mewn sefydliadau byd-eang mawr fel y Cenhedloedd Unedig, Banc y Byd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol.

Yn fwy diweddar, gwelodd argyfyngau dyledion y 1980au a'r 1990au y gymuned ryngwladol yn gorfodi gwledydd yn America Ladin, Affrica, Asia a'r hen Floc Dwyreiniol i gyflwyno polisïau dadreoleiddio eithafol, lleihau gwariant cyhoeddus yn gyflym, preifateiddio, mesurau rhyddfrydoli ariannol a masnachol, a thoriadau treth hael i gorfforaethau a phobl gyfoethog. Roedd y 'rhaglenni addasu strwythurol' hyn fel y'u gelwid yn achosi niwed i economïau ac yn gwneud anghydraddoldeb yn waeth. Mae gwaddol y rhaglenni hyn, o ran tanfuddsoddi mewn iechyd ac addysg, i'w deimlo o hyd mewn llawer o'r gwledydd tlotach. Er enghraifft, erbyn 2000, roedd anghydraddoldeb yn America Ladin yn uwch nag y bu erioed, â'r rhan fwyaf o'r gwledydd yn y rhanbarth yn cofrestru cynnydd mewn anghydraddoldeb incwm ers y ddau ddegawd blaenorol. Amcangyfrifir bod hanner y cynnydd mewn tlodi yn ystod y cyfnod hwn o ganlyniad i ailddosbarthu oddi wrth y tlotaf i'r cyfoethocaf. Yn Rwsia, gwelwyd bron i ddwywaith cymaint o anghydraddoldeb incwm yn yr 20 mlynedd ar ôl 1992, ar ôl i ddiwygiadau economaidd ganolbwyntio ar ryddfrydoli a dadreoleiddio.

Marchnadoedd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio

Pan mae'n cael ei reoleiddio, gall cyfalafiaeth fod yn rym llwyddiannus iawn i ennill ffyniant â chydraddoldeb. Gan ddechrau yn gyntaf yn Ewrop a Gogledd America, yna yn Japan, De Korea a gwledydd eraill yn Nwyrain Asia, mae llywodraethau wedi defnyddio economi'r farchnad i helpu i ddod ar urddas i fywydau cannoedd o filiynau o bobl. Fodd bynnag, ers y 1980au, mae ideoleg economaidd wedi'i dominyddu gan y fath or-optimistiaeth ym mhŵer marchnadoedd nes bod rhai awduron wedi'i labelu fel '*ffwndamentaliaeth marchnad*'. Mae ffwndamentaliaeth marchnad yn dadlau mai'r unig ffordd o sicrhau twf economaidd parhaus yw trwy leihau ymyriadau'r llywodraeth a gadael llonydd i farchnadoedd. Fodd bynnag, os nad yw'n cael ei rheoleiddio, mae'r farchnad yn tueddu i begynnu incwm yn yr un modd ag y mae'n pegynnu yn y gêm Monopoli lle mae incwm pobl sydd ag asedau megis Mayfair a Park Lane yn tueddu i godi'n gyflymach nag incwm pobl heb asedau sy'n dibynnu ar fynd heibio 'Ewch' i gael incwm. Mae'r gwahaniaeth yn nhwf incwm rhwng y rhai sydd â chyfalaf a'r rhai sydd heb gyfalaf yn hybu anghydraddoldeb. Mae'n effaith sydd wedi'i gweld yn y degawdau diwethaf yn y DU, lle mae prisiau tai wedi codi'n llawer cyflymach na chyflogau, gan ei gwneud yn anos i'r rhai sydd heb eiddo ddal i fyny. Mae cyfoeth wedyn yn cael ei grynhoi yn nwylo'r ychydig, ac mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn cynyddu.

Mae llawer o'r bobl fwyaf cyfoethog yn y byd heddiw wedi gwneud eu ffortiwn o ganlyniad i ffwndamentaliaeth marchnad. Ym Mecsico, llwyddodd Carlos Slim – sydd fel Bill Gates yn un o'r bobl fwyaf cyfoethog yn y byd, os nad y cyfoethocaf – i wneud ei filiynau trwy sicrhau'r holl hawliau i sector telathrebu'r wlad pan gafodd ei breifateiddio yn y 1990au. Gan fod ei fonopoli yn atal unrhyw gystadleuaeth arwyddocaol, mae Slim yn gallu codi crocbris ar ei gydwladwyr, ac mae costau telathrebu yn y wlad ymhlith y rhai drutaf yn y byd. O ganlyniad, mae wedi defnyddio ei gyfoeth i amddiffyn ei hun rhag nifer o heriau cyfreithiol i'w fonopoli[iv].

Mae amlygrwydd ffwndamentaliaeth marchnad ar y lefel ryngwladol yn tanseilio gallu llywodraethau cenedlaethol i sicrhau'r rheoleiddio a'r trethi sydd eu hangen er mwyn cadw anghydraddoldeb dan reolaeth. Ar un lefel cyfrifoldeb llywodraeth y wlad yw sicrhau bod adnoddau'n cael eu rhannu'n deg gan ei dinasyddion, ond nid yw'n gweithredu ar ei phen ei hun a gall ffactorau allanol effeithio ar ei pholisïau. Er enghraifft, yn y 'ras i'r gwaelod' fel y'i gelwir, mae cwmnïau trawswladol yn ceisio buddsoddi mewn gwledydd sy'n cynnig y trethi isaf, y

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

cyflogau isaf, a'r hawliau llafur a'r rheoliadau amgylcheddol lleiaf caethiwus er mwyn gwneud cymaint ag sy'n bosibl o elw. O ganlyniad, gallai llywodraeth gwlad deimlo bod pwysau arni i gyflawni rhai o'r gofynion hyn er mwyn osgoi colli busnes posibl. Gall llwgrwobrwyo a llygredd ddigwydd hefyd. Gall hyn oll olygu bod gweithwyr yn cael llai o dâl, ac yn gweithio mewn amgylchiadau llai ffafriol, a hefyd bod gan lywodraeth y wlad lai o arian i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus fel iechyd ac addysg. Ac eto, gwyddom y gall gwariant ar y gwasanaethau hyn helpu i leihau anghydraddoldeb.

Grym a gwleidyddiaeth yn nwylo'r elit

Efallai mai un o effeithiau mwyaf peryglus anghydraddoldeb ar les cymdeithas yw'r berthynas rhwng anghydraddoldeb economaidd ac anghydraddoldeb gwleidyddol. Pan fydd gan wlad lefelau uchel iawn o anghydraddoldeb, mae'n golygu bod elit bychan yn anghymesur o gyfoethog, ac o ganlyniad yn debygol o gael llais anghymesur yn y ffordd y caiff gwlad ei rheoli. Mae hyn yn ffurfio cylch dieflig. Mae'r elit yn gallu pwyso ar y llywodraeth i weithredu rheolau sy'n ffafrio eu busnesau a'u buddiannau hwy. Mae hyn yn eu gwneud hwy yn fwy cyfoethog, hyd yn oed yn fwy pwerus a hyd yn oed yn fwy abl i wneud rheolau sy'n ffafrio eu busnesau hwy. Er enghraifft, yn 2013 yn yr Unol Daleithiau, roedd mwy o gwmnïau yn cyflogi lobïwyr i weithio ar faterion trethi a chyllideb ffederal nag ar unrhyw faterion eraill[v].

Yn aml iawn mae'r rheolau hyn yn cyfyngu ar allu llywodraethau i wneud penderfyniadau ac yn cael effaith wael ar aelodau tlotach cymdeithas. Mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r gweddill yn hybu'r anghydraddoldeb pŵer hwn sy'n golygu bod y rhai sydd eisoes yn dlawd mewn sefyllfa wannach i allu dal y llywodraeth yn atebol, sy'n arwain at lai o fuddsoddiad mewn mesurau sy'n lleihau tlodi, megis addysg ac iechyd. O ganlyniad, gall anghydraddoldeb *economaidd* arwain at anghydraddoldeb *gwleidyddol* lle gall yr elit ddylanwadu ar y ffordd y mae'r economi'n esblygu, gan arwain at barhad – a hyd yn oed at begynnu – anghydraddoldeb economaidd.



Ac eto, fel y dangoswyd gan ymddygiad llywodraethau Ewropeaidd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, mae llywodraethau mewn sefyllfa i wneud rhywbeth ynglŷn â hyn. Er enghraifft, gallant leihau anghydraddoldeb gwleidyddol trwy gyflwyno trethi graddoledig i gyfyngu dosbarthiad incwm, gan sicrhau nad oes gan unrhyw grŵp ddylanwad anghymesur. Gallant hefyd ddefnyddio'r arian a

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

geir trwy'r trethi hyn i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at iechyd ac addysg, fel bod cyfle cyfartal i bob un o'u dinasyddion; ac yn olaf, gallant gymryd camau i sicrhau nad oes neb yn cael ei gau allan ac i reoleiddio marchnadoedd yn well er mwyn sicrhau bod twf economaidd o fudd i'r mwyafrif yn hytrach na'r lleiafrif.

Sylwer nad mater i'r gwledydd sy'n datblygu yn unig yw anghydraddoldeb – mewn gwirionedd, mae rhywfaint o'r cynnydd cyflymaf mewn anghydraddoldeb er 1980 wedi'i weld yn yr Unol Daleithiau ac yn y DU. Er enghraifft, yn yr Unol Daleithiau, aeth 95% o'r twf yn dilyn argyfwng ariannol 2008 i ddwylo'r 1% cyfoethocaf, tra'r oedd y 90% isaf yn mynd yn dlotach. Yn y cyfamser, yn Sbaen, tra'r oedd y pedwerydd dyn mwyaf cyfoethog yn y byd, Amancio Ortega, yn mynd sawl biliwn o ddoleri'r Unol Daleithiau yn fwy cyfoethog, roedd 1 o bob 4 person yn ddi-waith[vi].

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar adroddiad Oxfam, *'Even it up: time to end extreme poverty'*

policy-practice.oxfam.org.uk/publications/even-it-up-time-to-end-extreme-inequality-333012

Efallai hefyd y byddech yn hoffi edrych ar fideo Oxfam sy'n ymgyrchu yn erbyn anghydraddoldeb: www.youtube.com/watch?v=bL3MN8WLCQI&feature=youtu.be

Dylech ei gwneud yn glir i'ch dysgwyr mai safbwynt Oxfam yw hyn ar achosion anghydraddoldeb ac y gall fod gan bobl a sefydliadau eraill farn a syniadau gwahanol.

Beth y gellir ei wneud ynglŷn ag anghydraddoldeb?

Nid yw'r cynnydd parhaus mewn anghydraddoldeb economaidd yn y byd heddiw yn anorfod – mae'n deillio o ddewisiadau polisi bwriadol. Gall llywodraethau ddechrau lleihau anghydraddoldeb trwy wrthod ffwndamentaliaeth marchnad (gweler uchod), gwrthwynebu buddiannau arbennig yr elit pwerus, newid y rheolau a'r systemau sydd wedi arwain at lefelau anghydraddoldeb heddiw, a chymryd camau i sicrhau cydraddoldeb trwy weithredu polisïau sy'n ailddosbarthu arian a grym.

Mewn byd lle mae'r rhan fwyaf o wledydd yn wynebu bwlch cynyddol rhwng incwm pobl a lle mae anghydraddoldeb economaidd yn ffynnu, mae'r rhan fwyaf o lywodraethau'n wynebu'r her o wneud twf economaidd yn gynhwysol ym mhob ardal ddaearyddol, i bob grŵp ethnig ac i ddynion a merched fel ei gilydd. Mae gwasanaethau iechyd ac addysg rad ac am ddim yn arf cryf i frwydro yn erbyn anghydraddoldeb oherwydd eu bod o fwyaf o fudd i'r bobl dlotaf. Maent yn lleihau effaith dosbarthiad incwm eang trwy ddarparu 'rhith-incwm' i'r bobl dlotaf oherwydd nad ydynt yn gorfod talu am y gwasanaethau hyn eu hunain mwyach.[vii]

Yn ychwanegol at hyn, os bydd gwledydd anghyfartal yn buddsoddi mewn iechyd ac addysg trwy godi arian o drethi lle mae cyfradd y dreth yn codi wrth i incwm godi, mae budd deublyg i deuluoedd tlotach. Yn gyntaf, maent yn elwa trwy dalu llai o drethi (neu ddim o gwbl), ac yn ail maent yn elwa o wasanaethau iechyd ac addysg rad ac am ddim – rhith-incwm a all ragori ar eu hincwm eu hunain.

Profwyd hefyd fod buddsoddi mewn addysg ac iechyd rhad ac am ddim yn ffordd o fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb rhwng y rhywiau sy'n cadw menywod a merched allan o'r dosbarth ac yn eu rhwystro rhag dysgu darllen ac ysgrifennu. Mae gwasanaethau cyhoeddus rhad ac am ddim yn fuddsoddiad mewn dyfodol tecach i bawb, ac mae blaenoriaethu'r gwasanaethau hyn yn hollbwysig er mwyn galluogi cymdeithas i gael ei rhedeg er budd y mwyafrif yn hytrach nag er budd y lleiafrif breintiedig.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Sut y byddai Oxfam yn hoffi i lywodraethau fynd i'r afael ag anghydraddoldeb

Er bod Oxfam wedi bod yn cydnabod materion tlodi sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb rhwng gwledydd, mae'n dod yn fwy a mwy amlwg y bydd anghyfiawnder, anghydraddoldeb eithafol a thlodi hefyd yn parhau os nad ydym yn mynd i'r afael â'r lefelau cynyddol o anghydraddoldeb o fewn gwledydd hefyd. O ganlyniad, mae Oxfam yn credu bod angen chwilio am atebion ar lefelau rhyngwladol a chenedlaethol, a bod angen i lywodraethau weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy gymryd camau i sicrhau nad oes neb yn cael ei gau allan a rheoleiddio marchnadoedd yn well er budd y mwyafrif yn hytrach na'r lleiafrif.

Mae gan wahanol wledydd wahanol heriau – yn rhannol oherwydd eu bod yn cychwyn o wahanol leoedd – ond mae Oxfam yn annog pob llywodraeth i leihau anghydraddoldeb trwy ystyried y camau a ganlyn:

- Gwneud trethi'n deg, â rheolau sy'n sicrhau bod pawb – gan gynnwys pobl gyfoethog a chwmnïau rhyngwladol – yn talu cyfran deg.
- Buddsoddi'r biliynau sy'n cael eu colli oherwydd systemau trethi diffygiol, yn ogystal ag arian o ffynonellau eraill, mewn gofal iechyd, ysgolion a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol eraill sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau'r bobl dlotaf.
- Sicrhau bod gwaith caled yn talu, sy'n golygu swyddi diogel â chyflogau teg i fenywod – sy'n aml mewn swyddi llai diogel ac yn derbyn llai o gyflog – ac i ddynion, gan roi cyfle iddynt weithio eu ffordd allan o dlodi. Mae hefyd yn golygu cytundebau tecach i ffermwyr bach a gweithwyr eraill sy'n goroesi trwy werthu ffrwyth eu llafur.

Dylech ei gwneud yn glir i'ch dysgwyr mai safbwynt Oxfam yw hyn, o ran ffyrdd o ddatrys anghydraddoldeb, ac y gall fod gan bobl a sefydliadau eraill farn a syniadau gwahanol. Gallai ystyried y rhain fod yn sail i drafodaeth ddefnyddiol.

[i] Round 3 Survey Reports for Ethiopia, India, Peru and Viet Nam (Young Lives, 2011)
[ii] A Tale of Two Britains (Oxfam, 2014)
[iii] *Global Employment Trends for Women* (International Labour Organisation 2009)
[iv] OECD (2012) 'OECD Review of Telecommunication Policy and Regulation in Mexico', OECD Publishing, dyfynnwyd yn 'Even it up: time to end extreme inequality' Executive Summary (Oxfam, 2014)
[v] Wealth: Having it all and wanting more (Oxfam, 2015)
[vi] Even it up: time to end extreme inequality' (Oxfam, 2014)
[vii] Working for the Many (Oxfam, 2014)

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.